

GMC response to Welsh government consultation on Children missing education data (Cymraeg)

Rydym eisoes wedi amlinellu ein rôl fel rheoleiddiwr meddygon yn y Deyrnas Unedig (ac yn achos ffisigwyr cyswllt ac anesthesia yn y dyfodol). Rydym eisiau ailadrodd ein cefnogaeth i nod Llywodraeth Cymru o sicrhau nad yw'r un plentyn nac unigolyn ifanc yn colli'r cyfle i gael addysg addas. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y gall addysg briodol ei chwarae o ran cynnal a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â'r ystyriaethau hyn, mae'n bwysig cydnabod y rôl ganolog mae parch at gyfrinachedd cleifion yn ei chwarae o ran meithrin a chynnal ymddiriedaeth cleifion mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwasanaethau gofal iechyd.

Gall rhannu gwybodaeth berthnasol am blentyn neu unigolyn ifanc gyda'r bobl iawn, mewn amgylchiadau priodol, helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella eu llesiant. Fel rydym wedi ei nodi o'r blaen, mae ein safonau proffesiynol ar gyfer meddygon yn darparu fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer rhannu gwybodaeth briodol i gynorthwyo plant a phobl ifanc, wedi ei gydbwysu â'u hawliau cyfrinachedd. Credwn fod y dull hwn yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng meddygon a chleifion. (Mae'r manylion yn 'Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion' ac yn 'Amddiffyn plant a phobl ifanc: Cyfrifoldebau pob meddyg'.)

Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, wedi newid y dull arfaethedig o sefydlu a chynnal y gronfa ddata. Yn hytrach na chadw rhestr o'r holl blant oed ysgol, bydd yn canolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny a allai fod ar goll ym myd addysg. Er mai dim ond yr is-set hon o blant fydd yn y gronfa ddata yn y pen draw, mae'r broses o'i sefydlu (fel y nodir yn y Rheoliadau drafft) yn dal i fynnu bod byrddau iechyd lleol (a phractisau meddygon teulu o bosibl) yn rhannu gwybodaeth am yr holl blant sy'n preswyllo fel arfer yn y bwrdd iechyd lleol. Mae'r ymgynghoriad yn dangos bod faint o wybodaeth sydd i'w chasglu am blant unigol yn cael ei lleihau i'w henw, eu cyfeiriad, eu rhyw a'u dyddiad geni (heb fanylion penodol eu rhieni na'u gwarcheidwaid). Er bod hyn yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth gofal iechyd llai cyfrinachol, mae nifer o bryderon o hyd am y cynnig. Yn ogystal, mae'r atodlen yn y Rheoliadau drafft yn parhau i gyfeirio at enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn, enw a chyfeiriad yr un sy'n darparu eu haddysg, ac unrhyw angen dysgu ychwanegol sydd ganddynt. Gan na fyddwn yn gofyn am yr wybodaeth hon, mae'n bwysig tynnu'r cyfeiriadau hyn o'r Atodlen er mwyn sicrhau nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n anfwriadol.

Eglurder ynghylch y sail y bydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng gwasanaethau

Mae'r Rheoliadau drafft yn datgan y bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol a chontractwyr gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru ddatgelu gwybodaeth sydd ganddynt am blant

a phobl ifanc i'w hawdurdod lleol. Ni ddylai rhannu gwybodaeth gyfrinachol am blentyn gyda thrydydd parti, at ddiben nad yw'n gysylltiedig ag iechyd neu les y plentyn hwnnw (neu y gellir cyfiawnhau bod hynny er lles gorau'r plentyn hwnnw), ddigwydd oni bai fod sail gyfreithiol glir dros rannu. Nid yw'n glir a fyddai'r rheoliadau'n creu dyletswydd gyfreithiol ar feddygon teulu (fel contractwyr GMC) i drosglwyddo'r data gofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Awdurdod Lleol (er mwyn creu'r gronfa ddata), sy'n amlwg yn drech na'u rhwymedigaethau diogelu data a'r ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin sydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i'r cleifion maent yn eu gwasanaethu. Os nad yw'n amlwg y byddai'r rheoliadau'n drech na'r rhwymedigaethau hyn, yna mae gwrthdaro posibl â'n safonau proffesiynol, sy'n debygol o fod yn rhwystr i rannu'r data.

Nodwn y byddai Byrddau Iechyd Lleol yn trosglwyddo gwybodaeth sydd ganddynt yn barod i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, os yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw o ganlyniad i gael ei rhannu/ei dileu o systemau gofal sylfaenol neu ofal eilaidd, (er enghraifft, rhannu'n awtomatig pan fydd claf yn cofrestru â meddygfa neu'n mynd i gael gofal mewn ysbyty), yna, fel rydym yn deall hynny, byddai angen i'r claf (neu ei riant) wybod ymlaen llaw (fel rhan o ofynion diogelu data) y byddai manylion am enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn yn cael eu rhannu â'r Bwrdd Iechyd Lleol/Awdurdod Lleol er mwyn creu'r gronfa ddata a'i chynnal, ac mae'n bosibl y byddai'n dymuno gwybod am y sail gyfreithiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon. Os felly, fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol, byddai angen i feddygon (a staff gofal iechyd eraill) gael gwybodaeth glir a hygyrch i hwyluso sgysiau gyda phlant a'u rhieni ynghylch pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu a pham, a phwy y gallant gysylltu â nhw os oes ganddynt bryderon.

Cyfiawnhad dros gasglu data am bob plentyn

Rydym yn dal i bryderu am y cynnig, o gofio ei bod yn ymddangos ei bod yn ofynnol i feddygon rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol am yr holl blant a phobl ifanc oedran ysgol sy'n defnyddio eu gwasanaethau, er nad y nhw yw buddiolwyr arfaethedig y gronfa ddata.

Mae graddfa'r rhannu gwybodaeth a gynigir o dan y Rheoliadau drafft er mwyn nodi is-set fach a allai fod ar goll ym myd addysg, yn ymddangos yn anghymesur, heb ragor o fanylion ynghylch pam na fyddai dulliau llai ymwthiol yn cyflawni'r nodau polisi a fwriadwyd. O ystyried ein pryderon am y gwrthdaro posibl â'n safonau proffesiynol, credwn y bydd yn bwysig rhoi gwybodaeth glir i feddygon a chleifion am y rhesymeg dros gasglu'r data hwn gan wasanaethau gofal iechyd cyfrinachol, a'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Yr effaith ar gyfrinachedd cleifion ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau gofal iechyd

Credwn, os yw'n ofynnol i fyrddau iechyd rannu gwybodaeth bersonol am blant a phobl ifanc sydd ganddynt yn gyfreithlon, at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd a lles y plentyn, mae perygl y bydd gwneud hynny'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yng nghyfrinachedd gwasanaethau iechyd.

Rydym yn poeni y gallai rhai teuluoedd, a rhai plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau nad ydynt am gael eu hadnabod gan yr awdurdod lleol, ddewis peidio â chofrestru gyda meddyg teulu wrth symud lleoliadau neu o bosibl osgoi gofyn am help gan wasanaethau iechyd lleol eraill. Drwy

wneud hynny, byddant yn rhoi eu hiechyd a'u llesiant mewn perygl, er mwyn ceisio osgoi ymgysylltu ag awdurdodau lleol. Nodwn fod yr Asesiad Effaith cysylltiedig yn cydnabod y risg y gallai rhai teuluoedd ddewis peidio â chofrestru gyda meddyg teulu, ac yn amlinellu sut byddai canllawiau presennol yn helpu gweithwyr proffesiynol i leihau'r posibilrwydd y bydd plentyn yn mynd ar goll o fyd addysg os bydd yn dadgofrestru. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod wedi mynd i'r afael â'r risg y gallai cyfleoedd cynnar i ganfod pryderon diogelu gael eu colli, os bydd plant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd yn dewis peidio â chofrestru â meddygfeydd teulu neu fynd i'r ysbyty am ofal iechyd. Byddai'n ddefnyddiol, wrth gyflwyno'r achos dros rannu data am bob plentyn o leoliadau gofal iechyd, pe gellid rhannu unrhyw dystiolaeth sy'n cynnig sicrwydd i weithwyr proffesiynol y bydd modd i blant mewn perygl neu rieni plant o'r fath nad ydynt yn ymddangos mewn cofnodion gofal iechyd fod yn hysbys i wasanaethau eraill, ac y bydd ganddynt rywfaint o rwymedigaeth i'w hannog, er enghraifft, i gofrestru gyda meddyg teulu. Yn ogystal, mae'n bwysig, os gweithredir y newidiadau hyn, eu bod yn cael eu hategu gan ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus, gydag adnoddau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd (wedi eu cyfeirio at blant ac at eu rhieni). Bydd hyn yn helpu'r cyhoedd i ddeall pam mae'r data'n cael ei gasglu, sut bydd yn cael ei ddefnyddio, y dulliau i'w gadw'n ddiogel rhag mynediad amhriodol, y polisi cadw a'r camau y gallant eu cymryd os oes ganddynt bryderon penodol (gweler y manylion pellach isod ar dryloywder).

Tryloywder

Rydym yn disgwyl i feddygon gymryd camau i sicrhau bod cleifion yn gwybod pa wybodaeth adnabyddadwy amdanynt sy'n cael ei rhannu â sefydliadau eraill heb eu caniatâd penodol; ac a oes ganddynt reolaeth dros yr hyn sy'n cael ei rannu neu sut bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio. Bydd angen darparu gwybodaeth a deunyddiau hygyrch a chlir i feddygon er mwyn iddynt allu egluro i blant a phobl ifanc a'u rhieni beth yw pwrpas y gronfa ddata, sut bydd yr wybodaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio gan y Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol, a chyda phwy y gallant gysylltu os oes ganddynt bryderon bod eu manylion yn cael eu cadw ar y gronfa ddata. Bydd yn bwysig cynnal ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng meddygon a chleifion bod gan feddygon eu hunain ddealltwriaeth dda o sut bydd y data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio, pwy fydd yn gallu cael gafael arno, am ba hyd y bydd yn cael ei gadw. Gwyddom fod gan lawer o gleifion bryderon ynghylch pwy sy'n gallu cael gafael ar eu cofnodion iechyd mewn lleoliadau penodol. Yn ein canllawiau ar Gyfrinachedd, rydym yn glir na ddylai meddygon gael mynediad at wybodaeth bersonol claf oni bai fod ganddynt reswm dilys i'w gweld (gweler paragraff 120). Rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau diweddar a adroddwyd yn y cyfryngau lle mae ymarferwyr iechyd wedi cael gafael ar gofnodion meddygol neu wedi ceisio cael gafael arnynt yn amhriodol, a'r wybodaeth bod hyn yn bosibl yn bygwth tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gofal iechyd fel gwasanaeth cyfrinachol sy'n seiliedig ar systemau diogel.

Trefniadau cydweithredol presennol ar gyfer amddiffyn plant

Yn olaf, byddem yn ailadrodd ein bod yn cefnogi nod arfaethedig Llywodraeth Cymru i gynnal y cyfrifoldebau lles a diogelu sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc drwy sicrhau eu bod yn cael addysg briodol. Mae ein canllawiau ein hunain ar amddiffyn plant yn annog meddygon, fel mater o arfer da bob dydd, i gydweithio ag asiantaethau eraill i hyrwyddo llesiant plant a'u hamddiffyn rhag

cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin. Rydym hefyd yn ymwybodol bod dyletswyddau ar hyn o bryd i gydweithredu ag awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 164 yn darparu os bydd awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth gan bartner perthnasol (gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG), rhaid iddo ei darparu oni bai bod gwneud hynny'n anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu'n cael effaith andwyol ar ei swyddogaethau ei hun.

Mae'r dull hwn yn annog ac yn cefnogi cydweithredu ag awdurdodau lleol, heb danseilio dyletswyddau cyfrinachedd sy'n ddyledus i blant a phobl ifanc. Mae'r dull cydweithredol hwn yn adlewyrchu ein canllawiau ein hunain sy'n cadw lle i farn broffesiynol ar amseriad a hyd a lled datgelu gwybodaeth at ddibenion diogelu, er mwyn gwneud yr hyn sydd er budd gorau'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a chynnal eu hawliau.